Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Araith y Brenin 2024

Yn ôl y disgwyl roedd Araith y Brenin eleni yn cynnwys llawer o gyhoeddiadau ar gyfer y sector tai. Soniodd yr araith am tua 40 o filiau drafft gan fod yn arwydd bod polisïau maniffesto Llywodraeth Lafur newydd y DU yn dechrau ar eu taith ddeddfwriaethol.

Gellir darllen y papur gwybodaeth cefndir llawn i gefnogi Araith y Brenin yma.

## Tai

Bil Hawliau Rhentwyr

Nod y Bil hwn yw cyflwyno deddfwriaeth newydd i sicrhau fod y sector rhent preifat yn darparu cartrefi diogel ar gyfer y rhai sydd eu hangen. Bydd hyn yn cynnwys:

- Diddymu 'achosion troi allan heb fai' Adran 21
- Cryfhau hawliau a mesurau diogelu tenantiaid drwy rymuso tenantiaid i herio cynnydd rhent
- Rhoi hawl i denantiaid ofyn am gadw anifail anwes
- Gweithredu Safon Cartref Gweddus a Chyfraith Awaab i'r sector rhent preifat
- Creu cronfa ddata ddigidol i ddod â gwybodaeth ar gyfer landlordiaid, tenantiaid a chynghorau ynghyd
- Cefnogi datrysiadau rhatach a chyflymach pan mae anghydfod rhwng landlord a thenant drwy atal esgyn i drafodion llys
- Ei gwneud yn anghyfreithlon i landlordiaid wahaniaethu yn erbyn y rhai sy'n derbyn budd-daliadau neu sydd â phlant
- Cryfhau pwerau gorfodaeth ar gyfer awdurdodau lleol.

Bydd y Bil yn ymestyn i Loegr a Chymru a bydd yn weithredol yn Lloegr.

Bil Drafft Diwygio Lesddaliad a Chyfunddaliad

Nod y Bil hwn yw dod â system ffiwdal lesddaliad i ben drwy gynyddu hawliau lesddeiliaid i ymestyn eu les a phrynu eu rhydd-ddaliad, gan fynd i'r afael â rhenti tir drwy reoleiddio a rhoi diwedd ar yr ymarfer o fforfedu. Bydd y Bil yn weithredol yn Lloegr a Chymru.

Bil Cynllunio a Seilwaith

Mae'r Bil hwn yn cyhoeddi newidiadau sylfaenol i'r system cynllunio i helpu datgloi datblygiadau a chynorthwyo cyflenwi cartrefi preifat a chymdeithasol. Mae'r Bil yn bwriadu:

- Symleiddio cyflenwi seilwaith hanfodol drwy uwchraddio'r grid cenedlaethol a hybu ynni adnewyddadwy.
- Diwygio rheolau iawndal prynu gorfodol i alluogi cynnull tir mwy effeithlon drwy ddatgloi mwy o safleoedd.
- Gwella gwneud penderfyniadau lleol drwy foderneiddio pwyllgorau cynllunio a chynyddu capasiti awdurdodau lleol.
- Defnyddio datblygiadau i gyllido adfer natur.

Bydd y cyfan o'r Bil hwn yn weithredol yn Lloegr a Chymru i gyd. Bydd rhai mesurau hefyd yn weithredol yn yr Alban.

## Llesiant

Rhoddir blaenoriaeth i greu cyfoeth ar gyfer holl aelodau cymdeithas fel llwybr allan o'r argyfwng costau byw. Mae'r Llywodraeth Lafur yn ymroddedig i wneud i waith dalu a drwy Fil Skills England mae'n bwriadu cael pobl yn ôl i gyflogaeth yn dilyn y pandemig. Mae'r Bil Llesiant Plant hefyd yn cadarnhau cynlluniau i'w gwneud yn ofynnol cael clybiau brecwast am ddim ym mhob ysgol gynradd i gynorthwyo gyda chostau byw.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau pellach am ddiwygio llesiant yn Araith y Brenin.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

<u>Bil Iechyd Meddwl</u>

Roedd Araith y Brenin yn cynnwys cynlluniau i ddiwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl i'w gwneud yn addas i'r diben yn y byd modern. Y cynigion ar gyfer diwygio yw:

- Sicrhau nad yw gorchymyn cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ond yn digwydd lle mae'n hanfodol drwy ddiwygio'r meini prawf ar gyfer gorchmynion cadw i sicrhau mai dim ond os ydynt yn achosi bygythiad difrifol i'w hunain neu eraill a bod barn feddygol y byddai triniaeth o fudd therapiwtig y rhoddir gorchymyn cadw.
- Cyfyngu ymhellach y graddau y gellir cadw pobl gydag anabledd dysgu a/neu bobl gydag awtistiaeth.
- Cryfhau llais cleifion wrth gynllunio eu gofal.
- Tynnu carchardai a gorsafoedd heddlu fel mannau o ddiogelwch dan y ddeddf Iechyd Meddwl i sicrhau y caiff pobl sy'n profi argyfwng meddwl eu cefnogi mewn lleoliadau addas.
- Cefnogi troseddwyr gydag anghenion iechyd meddwl i gael y gofal maent ei angen a hynny yn gyflym

Bydd y Bil hwn yn weithredol yn Lloegr a Chymru.

Mae nifer o filiau eraill yn sôn am ofal cymdeithasol yn cynnwys y:

- Bil Cyflogaeth sydd ag amcan i sefydlu Cytundeb Tâl Teg yn y sector gofal cymdeithasol oedolion a fydd yn weithredol i bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae gan Gymru eisoes ymrwymiad yn ei le i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol oedolion.
- Bil Gwybodaeth Ddigidol a Data Deallus sy'n anelu i wella sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio data a llwyfannau digidol. Bydd y Bil yn cyflwyno safonau gwybodaeth i systemau TG yn y gyfundrefn iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae Bil Llesiant Plant yn anelu i wneud newidiadau i ofal cymdeithasol plant yn fwy teg, hapus a diogel.
- Nod Bil Skills England yw gwneud cysylltiad ffurfiol rhwng data ymfudo a pholisi sgiliau fel bod hyfforddiant yn Lloegr yn ymateb yn well i anghenion y farchnad lafur. Mae hyn yn debygol o fod â ffocws penodol ar iechyd a gofal cymdeithasol gan y bu cynnydd o 206% yn nifer y fisas a roddwyd ar gyfer gweithwyr yn y diwydiant hwn.

## Newid hinsawdd

Bil British Energy Bill

Mae cynlluniau yn y Bil ar gyfer cwmni ynni glân Great British Energy sy'n anelu i ostwng costau. Mae'r Bil yn cynnig y byddai Great British Energy yn berchen eu hasedau eu hunain drwy fuddsoddi mewn partneriaeth gyda'r sector preifat ac mae'n adeiladu ar waith a wnaed yn flaenorol i gyflawni'r uchelgais i sicrhau ynni glân erbyn 2030.

Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

Mae'r bil hwn yn cryfhau grymoedd y Rheoleiddiwr Dŵr drwy sicrhau fod penaethiaid cwmnïau dŵr yn wynebu atebolrwydd troseddol am dorri'r gyfraith. Mae hefyd yn cynnwys cynlluniau i wella atebolrwydd ymhellach ar gyfer uwch swyddogion cwmnïau dŵr drwy sefydlu cod ymddygiad. Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno grymoedd i ddod â dirwyon awtomatig a thrwm yn ogystal â gwahardd talu bonwsau os na chafodd safonau amgylcheddol eu cyrraedd.

Bydd hefyd angen i gwmnïau dŵr osod monitorau amser-amser real ym mhob safle gollwng carthffosiaeth gyda data i gael ei graffu yn annibynnol gan y rheoleiddiwr.

Bydd y Bil hwn yn weithredol yn Lloegr a Chymru.

## Diweddariadau eraill

- **Ymfudiad –** Roedd yr araith yn cynnwys cynlluniau i foderneiddio'r system ymfudo drwy'r Bil Diogelwch Ffiniau, Lloches ac Ymfudiad.
- **Datganoli –** Cyhoeddodd y Brenin y byddai Bil newydd i gefnogi datganoli yn Lloegr a grymoedd newydd i Faerau lleol yn ogystal â chynlluniau i gryfhau perthynas gyda phwerau datganoledig o amgylch y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Cymru gyda gobaith i wella cydweithio rhwng cenhedloedd.
- **Trafnidiaeth –** Cyhoeddwyd cyfres o gynlluniau gyda'r nod o wella trafnidiaeth, yn cynnwys cynlluniau i ddod â chwmnïau rheilffordd yn ôl i ddwylo'r llywodraeth.
- **Gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach –** Cyhoeddwyd bil yn anelu i wella tryloywder ac atebolrwydd o fewn gwasanaethau cyhoeddus. Cafodd cynlluniau hefyd eu datgan i gynyddu presenoldeb yr heddlu mewn cymunedau a chefnogi'r rhai sy'n dioddef o droseddu.

## Dadansoddiad CHC

Roedd Araith y Frenhines yn nodi dechrau ymagwedd partneriaeth rhwng Llafur y DU a Llafur Cymru. Rydym eisoes yn gweld polisi Cynllunio yn cael ei alinio, gyda Llafur Cymru wedi cyhoeddi yn ddiweddar y cyflwynir Bil i gyfuno a symleiddio'r system erbyn diwedd tymor y Senedd. Er fod pwerau i ddiwygio polisïau tai a chynllunio yng Nghymru wedi eu datganoli i Senedd Cymru, disgwyliwn y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried sut y byddai'n ddefnyddiol gweithredu rhai o'r Biliau a'r darpariaethau hyn yng Nghymru.

*I gael mwy o wybodaeth neu i drafod unrhyw beth o fewn y papur gwybodaeth hwn cysylltwch â:*
*bethany-howells@chcymru.org.uk*